# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Hen Ysgol**

**Yr Hen Ysgol**
**Chapel Street**
**Porthmadog**
**LL49 9DS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

26/03/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Hen Ysgol

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br><br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Meithrinfa Hen Ysgol |
| Lleoedd cofrestredig | 72 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 20 Chwefror 2020 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae llesiant y plant wrth wraidd y lleoliad. Mae'r plant yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel wrth iddynt feithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff. Maent yn rhyngweithio'n dda ac yn gwerthfawrogi'r ffrindiau y maent yn eu gwneud. Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu gan fod amrywiaeth eang o weithgareddau ac adnoddau ar gael iddynt.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda. Maent yn ofalgar ac yn wybodus ynglŷn ag anghenion unigol y plant. Mae'r staff yn cefnogi'r plant i gyfathrebu'n effeithiol wrth iddynt fodelu sgiliau iaith da ac maent yn neilltuo amser ar gyfer profiadau cymdeithasol. Maent yn cynllunio profiadau diddorol ac arloesol i gefnogi'r plant i feithrin amrywiaeth o sgiliau.

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer yr amgylchedd ac maent yn sicrhau ei fod yn lle diogel i'r plant. Mae'r arweinwyr yn llawn cymhelliant ac yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd sy'n arloesol ac yn ysgogol, gan greu ardaloedd cyffrous a chroesawgar lle gall y plant ddatblygu a dysgu. Mae darparu adnoddau pwrpasol sy'n cefnogi datblygiad cyfannol y plant yn flaenoriaeth iddynt.

Mae'r arweinwyr yn cymryd rhan weithredol yn y broses o redeg y lleoliad, ac yn helpu i sicrhau ei fod yn cael ei reoli'n dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd hunanwerthuso er mwyn adolygu ansawdd y gofal ac maent yn ystyried mentrau newydd yn gyson i'w helpu i ddatblygu eu lleoliad ymhellach. Mae'r arweinwyr yn rheoli'r staff yn dda ac yn meithrin cydberthnasau da â'r rhieni.

## Llesiant — Da

Mae gan y plant lais cryf ac maent yn gwneud penderfyniadau priodol am eu profiadau chwarae. Maent yn symud yn rhydd ac yn hyderus o gwmpas yr amgylchedd, gan ddewis o'r amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael iddynt. Mae'r plant yn cyfathrebu'n dda gan eu bod yn hyderus y bydd y staff yn ymateb yn effeithiol i'w syniadau, eu hanghenion a'u diddordebau. Er enghraifft, mae'r plant hŷn yn dewis p'un a ydynt am gael byrbryd ai peidio a phryd ac mae'r plant iau yn gwybod y gallant ddilyn eu harferion eu hunain mewn perthynas â chysgu pan fyddant wedi blino. Mae'r plant yn defnyddio dulliau cyfathrebu llafar a dieiriau yn effeithiol i fynegi eu hunain a'u hanghenion.

Mae'r plant yn setlo'n dda gan eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn y lleoliad. Maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff sy'n eu helpu i deimlo'n gyfforddus. Er enghraifft, roedd y plant yn gyffrous ac yn awyddus i gyfarch y staff a oedd yn dod i mewn i'w hystafell. Mae'r plant yn mwynhau eu profiadau ac yn gwerthfawrogi'r ffrindiau y maent yn eu gwneud. Maent yn mwynhau chwarae gyda'u cyfoedion a dewis gyda phwy i eistedd yn ystod amser byrbryd. Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan fod eu diddordebau yn cael eu hystyried bob amser ac mae'r staff yn ymwybodol o'u hangenion.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ac yn dysgu sut i ddatblygu ymdeimlad o'r hyn sy'n dda ac yn ddrwg. Mae bron pob un o'r plant yn dilyn y rheolau disgwyliedig ac yn dysgu sut i reoli eu hymddygiad eu hunain  gan eu bod yn deall y disgwyliadau a'r ffiniau. Maent yn dangos parch tuag at eraill a'r adnoddau wrth iddynt ddysgu rhannu a defnyddio eitemau yn briodol. Mae'r plant yn mynegi empathi tuag at blant eraill ac maent yn dysgu sut i ddeall ac ystyried anghenion eraill. Er enghraifft, cymerodd blant o bob oed ran mewn gêm bêl-droed, gyda phob un ohonynt yn chwarae gyda'i gilydd mewn modd cydweithredol ac yn sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gynnwys.

Mae'r plant yn ymgysylltu'n dda ac yn awyddus i gymryd rhan yn y cyfleoedd chwarae a dysgu sydd ar gael. Mae amrywiaeth dda o weithgareddau diddorol ar gael iddynt sy'n eu galluogi i ddilyn eu diddordebau dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r plant iau yn mwynhau archwilio'r gweadau sydd ar gael wrth iddynt chwarae â'r ceirch a'u cymysgu â dŵr. Mae profiadau chwarae awyr agored arloesol a chyffrous ar gael i'r plant, gan gynnwys ysgol goedwig lle maent yn dysgu am y byd o'u cwmpas a lle cânt eu cefnogi a'u hannog i gymryd risgiau pwyllog, fel defnyddio offer a dechrau tân. Mae'r plant yn falch o'u cyflawniadau oherwydd hyn.

Mae cydbwysedd da o weithgareddau dan arweiniad y plant a'r oedolion ar gael i'r plant sy'n eu helpu i feithrin amrywiaeth o sgiliau. Maent yn cymryd rhan mewn cyfleoedd heriol sy'n eu helpu i fagu hyder a datblygu eu creadigrwydd.

Er enghraifft, babanod yn defnyddio'r cyfarpar dringo a'r plant yn dysgu am germau yn ystod y gweithgaredd a baratowyd gan y staff. Rhoddir cyfleoedd i'r plant gynllunio eu dysgu eu hunain wrth i'r staff ofyn iddynt beth yr hoffent ei wneud a gallant ddylanwadu ar eu profiadau. Er enghraifft, roedd y plant hŷn yn dymuno mynd i'r traeth a choginio *spaghetti bolognaise* i ginio.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau effeithiol er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Maent yn deall y trefniadau diogelu a'r weithdrefn i'w dilyn os bydd ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n ddigonol. Fodd bynnag, nid yw'r staff bob amser yn hyderus i ofyn am gymorth yn ystod adegau prysur, fel amser cinio, a all arwain at lawer o gynnwrf yn yr ystafelloedd. Cynhelir ymarferion tân yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y staff a'r plant yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn mewn argyfwng.

Mae'r staff yn hyrwyddo ffordd iach o fyw yn effeithiol ac yn annog y plant i ddilyn yr arferion hyn. Maent yn darparu dewisiadau bwyd maethlon ar gyfer byrbrydau a chinio a dim ond llaeth neu ddŵr a gaiff eu cynnig i'w yfed. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael eu hannog i yfed digon gan fod diodydd ar gael ac yn cael eu cynnig iddynt drwy gydol y dydd. Mae'r staff yn hynod effeithiol wrth sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i fod yn egnïol a chael awyr iach. Er enghraifft, gall y babanod ddefnyddio'r cyfarpar dringo dan do ac mae'r plant yn defnyddio'r ardal awyr agored yn rheolaidd, yn mynd ar deithiau cerdded ac yn ymweld â'r ardal goetir.

Mae gan y staff agwedd ofalgar tuag at y plant. Maent yn dangos parch a diddordeb yn yr hyn y mae'r plant yn ei wneud, gan hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol a sgiliau cymdeithasol. Mae'r staff yn eistedd ar lefel y plant, gan fodelu ac annog moesau da ac ymateb i unrhyw gwestiynau neu sylwadau gan y plant. Mae bron pob aelod o'r staff yn rheoli ymddygiadau cadarnhaol ac yn eu hyrwyddo yn gyson. Maent yn defnyddio strategaethau sy'n briodol ar gyfer oedran y plant i dawelu ymddygiadau digroeso posibl ac yn annog y plant hŷn i reoli a datrys sefyllfaoedd yn annibynnol pan fo'n briodol. Er enghraifft, caniatáu i'r plant ddatrys anghydfod yn ystod gêm bêl-droed. Mae'r staff yn canmol y plant yn effeithiol er mwyn hyrwyddo eu hymdeimlad o falchder a hunan-barch.

Mae'r staff yn meddu ar wybodaeth dda am ddatblygiad plant ac yn deall anghenion unigol y plant. Maent yn gweithredu strategaethau ac arferion cadarnhaol i gefnogi'r plant er mwyn iddynt allu datblygu a dysgu'n effeithiol. Mae'r staff yn canolbwyntio ar alluogi'r plant i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac maent yn ystyried y rhain wrth drefnu gweithgareddau a pharatoi adnoddau. Maent yn darparu amrywiaeth o adnoddau a gweithgareddau cyffrous sy'n ysbrydoli'r plant ac yn meithrin eu sgiliau creadigol a datrys problemau. Er enghraifft, datblygu eu synhwyrau drwy ddarparu hambwrdd twff wedi'i lenwi â phys wedi rhewi, salad a moron i greu golygfa buarth fferm yn ogystal â dŵr lliwiau gwahanol, pipedau a phetalau blodau i'r plant eu defnyddio i greu eu persawr eu hunain. Mae'r staff yn cefnogi'r plant i gyfathrebu yn eu hiaith gyntaf, gan ddefnyddio Cymraeg a Saesneg yn gyson.

| Yr Amgylchedd | Rhagorol |
| --- | --- |

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel i'r plant. Caiff mynediad i'r lleoliad ei reoli a chaiff ymwelwyr eu cofnodi. Cedwir cofrestrau o bresenoldeb y plant a'r staff fel y gellir rhoi cyfrif am bawb. Mae pob un o'r drysau a'r giatiau allanol yn ddiogel, felly ni all y plant adael heb oruchwyliaeth ac ni all unrhyw un fynd i mewn i'r lleoliad heb awdurdod. Mae'r arweinwyr yn cynnal asesiadau risg ar bob ardal a ddefnyddir, y gweithgareddau rheolaidd a gaiff eu cwblhau ac ar unrhyw deithiau cerdded neu deithiau eraill. Mae'r rhain yn dangos bod diweddariadau'n cael eu gwneud yn rheolaidd a bod unrhyw beryglon yn cael eu nodi a'u rheoli mewn ffordd addas. Maent wedi creu amgylchedd sy'n galluogi'r plant i arbrofi a chymryd risgiau pwyllog yn llwyddiannus. Mae cynlluniau ar waith i ddatblygu gwybodaeth y staff ymhellach drwy gwblhau hyfforddiant ar nodi peryglon a risgiau a'u rheoli, yn enwedig ar deithiau cerdded yn y gymuned.

Mae'r arweinwyr yn llawn cymhelliant ac yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd sy'n ysgogol ac yn annog dysgu drwy chwarae. Maent wedi creu ardaloedd cyffrous, croesawgar ac arloesol. Caiff pob ardal ei defnyddio'n dda iawn i greu ardaloedd dysgu i'r plant sy'n eu hysbrydoli ac yn eu hannog i archwilio, datrys problemau a meithrin sgiliau. Mae pob ystafell wedi cael ei dylunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion y plant ac mewn ffordd sy'n addas i'w hoedran. Er enghraifft, mae llawer o le yn yr ystafell fabanod i'r plant symud o gwmpas yn ddiogel wrth iddynt ddechrau cropian a cherdded a chaiff yr ystafelloedd eu trefnu gydag ardaloedd dysgu ysbrydoledig sy'n cefnogi datblygiad a dysgu'r plant. Mae ardaloedd gwahanol ar gael i'r plant hŷn er mwyn eu galluogi i gael amrywiaeth o gyfleoedd a phrofiadau. Er enghraifft, ardaloedd awyr agored ysbrydoledig sydd wedi cael eu cynllunio er mwyn annog gweithgareddau corfforol, fel reidio beiciau, gemau pêl a dringo. Mae ardal sy'n cynnwys llawer o arwynebau ac adnoddau gwahanol hefyd sy'n creu ymdeimlad o goetir. Mae'r lloches naturiol yn darparu lle i'r plant chwarae gemau, bwyta neu arbrofi gyda'r deunyddiau a'r gweithgareddau sydd ar gael, ac mae'r caban pren yn cynnig ardal gysurus i'r plant nad ydynt am fod yn yr awyr agored o bosibl. Mae'r ardal awyr agored yn gryfder amlwg yn y lleoliad ac mae'r arweinwyr wedi gweithio'n galed i greu y lle ysbrydoledig hwn lle gall y plant ffynnu a meithrin nifer o sgiliau, magu hyder a datblygu hunan-barch.

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer yr amgylchedd. Mae darparu adnoddau pwrpasol sy'n cefnogi datblygiad cyfannol y plant mewn ffordd gyffrous ac arloesol yn flaenoriaeth iddynt. Maent wedi sicrhau bod adnoddau hynod ddiddorol yn yr amgylchedd sy'n ennyn diddordeb y plant ac yn eu hysbrydoli i chwarae, dysgu a bod yn greadigol. Mae'r ffaith bod nifer mawr o ddeunyddiau naturiol ar gael yn ysbrydoli'r plant i arbrofi a dysgu am weadau a phrosesau gwahanol.

Er enghraifft, roedd y plant yn llawn cymhelliant i ddysgu am y germau a oedd ar y menig rwber budr wedi'u chwythu a'r deunyddiau glanhau gwahanol yr oedd y staff wedi'u darparu. Mae'r arweinwyr yn gwella profiadau'r plant drwy gynnwys adnoddau bywyd go iawn yn yr ardaloedd, fel colur, sychwyr gwallt a brwshys. Roedd y plant wrth eu boddau yn defnyddio'r rhain i wisgo i fyny a gwisgo'r staff. Mae'r holl gyfarpar mewn cyflwr da a chaiff ei storio ar uchder addas er mwyn sicrhau y gall y plant gael gafael arno'n annibynnol.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Da |
|---|---|

Mae'r arweinwyr yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o reoli'r lleoliad ac mae hyn yn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r gwasanaeth a'r gofal a ddarperir. Maent wedi ysgrifennu datganiad o ddiben sy'n cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol ac yn rhoi syniad clir i'r rhieni ai dyma'r gofal cywir ar gyfer eu plentyn. Mae'r gwaith papur yn drefnus a chaiff y cofnodion, sy'n cynnwys dogfennau cofrestru'r plant, eu cwblhau a'u storio'n ddiogel fel ei bod yn hawdd dod o hyd i'r wybodaeth. Yn gyffredinol, mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn adlewyrchu'r ymarfer presennol a chânt eu cadw'n gyfredol. Fodd bynnag, nid oedd y polisi disgyblu staff yn glir mewn mannau o ran yr ymarfer a'r gweithdrefnau a fyddai'n cael eu dilyn.

Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd hunanwerthuso er mwyn adolygu ansawdd y gofal. Maent yn ceisio barn y staff, y plant a'r rhieni yn effeithiol ac yn eu hystyried er mwyn gwneud newidiadau. Er enghraifft, darparu mwy o hyfforddiant er mwyn i'r staff roi'r dull newydd o gynllunio a chefnogi chwarae a dysgu'r plant ar waith. Mae'r arweinwyr yn gwerthuso ac yn ystyried mentrau newydd yn gyson er mwyn eu helpu i ddatblygu eu lleoliad. Er enghraifft, maent wedi gweithio ochr yn ochr â meithrinfeydd eraill ac wedi ystyried eu gwybodaeth a'u gwaith ymchwil er mwyn datblygu'r ardal goetir ymhellach i wella profiadau'r plant a sicrhau ei bod o fudd iddynt.

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r staff yn effeithiol ac maent yn cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarniadau yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu a bod anghenion hyfforddiant yn cael eu nodi. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau gweithio yn y lleoliad a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Mae gan yr arweinwyr broses recriwtio gadarn er mwyn sicrhau bod y staff yn meddu ar y profiad a'r hyfforddiant priodol i weithio gyda phlant. Maent wedi datblygu tîm o staff sy'n cydweithio'n dda â'i gilydd er mwyn sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn ddidrafferth ac yn diwallu anghenion pob plentyn.

Mae gan yr arweinwyr gydberthynas dda â'r rhieni. Maent wedi cyflwyno Ap yn ddiweddar er mwyn gallu rhannu gwybodaeth, lluniau a manylion am ddiwrnod a phrofiadau'r plant yn effeithiol. Roedd y sylwadau a wnaed gan y rhieni yn yr holiaduron yn cynnwys, "*exceptional care*" a "*care is outstanding*". Mae'r arweinwyr yn gweithio'n agos gyda lleoliadau eraill i rannu arferion da er mwyn eu helpu i roi syniadau newydd ar waith sydd o fudd i'r plant. Maent yn cefnogi'r plant i ddatblygu ymdeimlad o berthyn yn y gymuned drwy fynd ar deithiau cerdded ac ymweld â mannau lleol o ddiddordeb, fel y parc lleol a'r traeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| | Rheoliad 30: Cadw Cofnodion | Cyflawnwyd |
| | Rheoliad 28: Addasrwydd gweithwyr | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau bod y staff yn hyderus i ofyn am gymorth a chefnogaeth pan fo angen, yn enwedig yn ystod adegau prysur. |
| Adolygu'r polisi disgyblu staff er mwyn sicrhau ei fod yn glir o ran yr ymarfer a'r gweithdrefnau a fyddai'n cael eu dilyn. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 16/05/2024